


cwmpawd

*eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd*



Golygyddol

Gwynn Williams

Mae'n hawdd i ni fel Cristnogion deimlo'n isel wrth weld tueddiadau ein hoes yn y Gymru sydd ohoni, ond yn sicr daw cysur wrth ystyried y ffyrdd y mae Duw wedi gweithio yn y gorffennol. Yn ail bennod llyfr cyntaf Samuel cawn ddarlun o gyflwr ysbrydol isel y genedl. Cawn fod Eli, yr offeiriad, bellach yn hen ŵr ac wedi methu yn llwyr a rheoli na disgyblu ei feibion Hoffni a Phinees. Hwyl bellach sydd yn gweithredu fel offeiriaid ond mae eu pechodau yn amlwg i bawb. Heb os, dyma fyddai penawdau'r dydd 'Hoffni a Phinees yn dwyn yr aberthau', 'Offeiriaid yn godinebu'. Yn naturiol, roedd y bobl yn dioddef oherwydd eu hymddygiad materol ac anfoesol. Yn sicr nid oedd gair yn dod oddi wrth Dduw(3.1).

Ond bob hyn a hyn trwy gydol yr hanes trist yma cawn sylwadau am y bachgen Samuel a oedd bellach yn gwasanaethu yn y tabernacl yn Seilo - adnodau fel 'yr oedd y bachgen yn gwasanaethu'r

Arglwydd gerbron yr offeiriad Eli'(11); 'Yr oedd y bachgen Samuel yn gwasanaethu ger bron yr Arglwydd'(18); 'tyfodd y bachgen Samuel yn nhŷ'r Arglwydd'(21); 'yr oedd y bachgen Samuel yn dal i gynyddu ac ennill ffafr gyda Duw a'r bobol'(26); 'yn y dyddiau pan oedd y bachgen Samuel yn gwasanaethu'r Arglwydd'(3.1). Hynny yw, allan o'r golwg mae Duw ar waith yn paratoi ei was ar gyfer y dyfodol i fod yn broffwyd a oedd i droi'r genedl o'i chrwydro ysbrydol i ddiwygiad ac adfywiad rhyfeddol.

A oes gennym lygaid i weld beth mae Duw yn ei wneud yn y cefndir yn ein dyddiau ysbrydol tywyll ni? A ydyw yn dawel yn gosod y sylfeini ar gyfer bendith fwy yn y dyfodol fydd yn sicrhau fod Gair Duw unwaith eto yn rymus yn ein gwlad? Fel y gwyddom mae wedi gwneud sawl gwaith o'r blaen yn hanes Cymru. Gweddïwn y bydd iddo wneud yr un peth eto.

Tynnu'r Llenni

Trystan Hallam

Awr yn ôl neu awr ymlaen? Dydw i byth yn cofio pa ffordd i droi'r cloc. Gwir mae'r rhigwm Saesneg yn sôn am *spring forward* yn y Gwanwyn, a *fall back* yn yr Hydref. Ond fues i erioed yn un da am gofio rhigymau Saesneg. Y gwir amdani, wrth gwrs, yw nad oes ots gan natur a ydw i'n cofio pa ffordd i droi'r cloc ai peidio. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn amlwg, yn dorcalonnus o amlwg yr adeg yma o'r flwyddyn. Rydym yng nghyfnod nosweithiau hir tymor y gaeaf. Agor y llenni i dywyllwch y bore, cau'r llenni am bedwar y prynhawn i dywyllwch y nos.

Ond mae 'na olau yng nghanol tywyllwch y gaeaf. Golau swnllyd! Rhaid i mi gyfaddef mai 5 Tachwedd oedd un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi fel plentyn. Doedd pawb ddim yn mwynhau'r noson, yn enwedig Guto druan, ond i mi roedd lliw a disgleirdeb y tân gwyllt yn cyflymu'r gwaed. Dŵch noson o aeaf yn cael ei drawsnewid i olau llachar â chwibaniad roced, a phawb yn troi am adre, ar ôl

gwefr y ffrwydriad o olau, mewn hwyliau llawer gwell. Anghofio tymor tywyll y gaeaf – wel am noson o leiaf. Oherwydd agor y llenni i dywyllwch y bore oedd yr un hen drefn ar 6 Tachwedd. Pacio fy mag, a gadael am yr ysgol a'r wawr yn rhyw fath o dorri. Byddai'r haul (os oedd haul o gwbl!) wedi hen fynd i'w wely erbyn i mi gyrraedd adre. Rhaid oedd cau'r llenni ar ddŵch y prynhawn.

Oedd 'na olau arall rownd cornel tywyll Tachwedd? Oedd, golau y D.M.T. – Y Dyn Mawr Tew. Byddai Siôn Corn a Rwdolff yn galw ar 25 Rhagfyr i oleuo diflastod y gaeaf. Gellid dadlau mai un goleudy llachar yw mis Ragfyr, gyda goleuadau ar y stryd, yn y siopau, ac o flaen ein tai. Dŵch y gaeaf? Rwy'n siŵr bod angen i Siôn Corn fynd i weld y doctor (neu'r trydanwr?!) am ei fod yn disgleirio'n rhy llachar o flaen ambell dŷ.

Ond peidied i Siôn Corn boeni'n ormodol. Fe ddaw'r *switch off*. Fe dynnir y plwg ar y golau. Ceiff

Santa ei bacio'n ôl i'w focs, a'i anghofio yn nhywyllwch yr atig am flwyddyn arall. Bydd rhaid i ni gau'r llenni ar dywyllwch brynhawniau mis Ionawr.

'Myfi yw goleuni'r byd'. Pan agorwn y llen ar berson Iesu Grist, dyma un o'r datganiadau sydd ar ganol y llwyfan. Yn Efengyl Ioan 8:12, mae'r Iesu'n honni mai Ef yw goleuni'r byd. Ond pam y dylem ni gredu'r Iesu o gwbl? Pam y dylem gredu fod y goleuni mae'r Iesu'n ei gynnig yn well na roced ar noson Guto Ffowc? Beth sydd yn gwneud yr Iesu mor wahanol i Rwdolff a'i griw?

Mae'r ateb i'w gael wrth i ni ofyn cwestiwn arall: beth yw pwrpas golau? Pam ydw i'n cynnau'r golau mewn ystafell wedi i mi dynnu'r llenni ar noson dywyll o aeaf? Am fy mod i eisiau gweld beth sydd yn yr ystafell. Mae'r golau'n dangos yn glir yr hyn oedd yn guddiedig yn y tywyllwch. Yn syml heb olau, rydym yn methu gweld. Y rheswm pam mae Iesu Grist yn unigryw yw am ei fod yn dangos – neu, a ddefnyddio gair y Beibl, am ei fod yn datguddio – Duw i ni. Mae Iesu Grist yn dweud mai Ef yw goleuni'r byd am ei fod yn datguddio Duw yn glir i'r byd. Os ydw i eisiau gwybod pwy yw

Duw, mae rhaid i mi wybod am Iesu Grist.

'Un funud,' meddech chi, 'does dim eisiau neb i ddweud wrtha i am Dduw. Fe alla i wneud fy mhenderfyniadau fy hun ynglŷn â phwy yw Duw.' Oeddech chi arfer credu fod y bwci-bô yn byw dan y gwely pan oeddech yn fach? Sut oeddech chi wedi cyrraedd y 'gred' yma? Pam cuddio dan y flanced yn crynu, 'Dad, Mam, fi'n gwybod fod y bwci-bô yn byw dan y gwely'?

'Fel 'ti'n gwybod Trystan?'
Beth fyddai'r ateb i Dad a Mam? 'Achos **fi'n** gwybod ei fod e.' Fi, heb unrhyw brawf, fi oedd yr awdurdod am y bwci-bô dan y gwely. Beth fyddai Dad neu Mam yn ei wneud? Byddai'r fflachlamp yn cael ei bwyntio dan y gwely, a byddai'r ofnau'n diflannu. Nid **fi** oedd yr awdurdod am y bwci-bô.

Mae dyn yn gallu bod yn hynod o blentynaid am Dduw. Fe benderfyna **i** pwy yw Duw. Fe benderfyna **i** os oes gan Dduw hawl i fodoli o gwbl. Beth yw canlyniad rhesymu y **fi** fawr yma wrth i ni feddwl am Dduw? Duw yn ôl ein dychymyg ein hunain – rhyw Dduw stori tylwyth teg. Os ydym am wybod pwy yw Duw, mae rhaid i Dduw

ddangos – ddatguddio – ei hun i ni. Tywyllwch llwyr yw ein dychymyg ni am Dduw. Mae rhaid i ni gael golau, golau Duw ar y mater.

Iesu Grist yw goleuni'r byd am ei fod yn dangos Duw yn glir i ni. Sut y gallwn ni ddod i'r fath gasgliad? Sut y gallwn ni ddweud mai Iesu sy'n dangos Duw yn glir? O achos yr hyn mae'r ffeithiau yneudweud wrthym. Rhwymodd Mair ei mab o gig a gwaed mewn llieiniau baban a'i osod mewn preseb. Ond roedd yr un Mair yn gwybod fod y baban yn y preseb yn fwy na dim ond cig a gwaed. Yn ôl gair yr angel Gabriel i Mair, hwn oedd 'Mab y Goruchaf'. Nid Mair y fam yn unig a dderbyniodd addewid am y baban. Dywedodd yr angel wrth Joseff, ei gŵr, mai'r baban, yr Iesu hwn, fyddai'r 'Immanuel',

sef Duw gyda ni. Mae'r Iesu'n dangos Duw yn glir i ni am ei fod yn Dduw yn y cnawd. Er mwyn i ni gael gweld goleuni Duw yn glir, roedd rhaid i Dduw ddod yn ddyn. Iesu Grist yw'r Immanuel. Duw gyda ni.

Fe fyddwch chi a finnu'n tynnu'r llenni ar bob noson o olau y gall y byd yma ei gynnig. Ond ar y Nadolig cyntaf, daeth goleuni Duw, Duw ei hun, i'n byd. Ni wnaeth dim rwystro goleuni'r Arglwydd Iesu. Nid oedd tywyllwch marwolaeth hyd yn oed yn gallu tynnu'r llen arno. Atgyfododd Crist y trydydd dydd. Beth yw eich ymateb chi i Iesu Grist? A fyddwch yn pacio Crist yn ôl i'r atig gyda'r tinsel, y goeden a'r goleuadau Nadolig? Ydych chi wedi tynnu'r llen ar Iesu Grist?

llun: www.freeimages.co.uk




Dathlu'r Nadolig

Catrin Lewis

Rwyf mewn tipyn bach o benbleth. Mae un rhan ohonof yn teimlo'n grac iawn wrth weld yr holl nwyddau Nadolig yn y siopau ddiweddd mis Medi. Ond eto, rhaid i mi gyfaddef, unwaith y bydd y dyddiau'n dechrau byrhau, a'r nosweithiau'n oeri, rwy'n dechrau cyffroi fel plentyn bach wrth feddwl am yr Ŵyl. Mae'n siŵr bod rhyw ddeuliaeth felly yn rhan o brofiad y Nadolig i lawer ohonom. Rydym yn gresynu at yr ŵyl fasnachol a'r gorwario, ond eto yn hoffi prynu a derbyn anrhegion, ac wrth ein bodd yn siopa gyda'r nos dan y goleuadau. Rydym yn anesmwyth efallai ynghylch rhai o wreiddiau paganaidd yr hen ŵyl aeafol. Ond fel Cristnogion rydym yn croesawu'r cyfle i ddathlu rhodd fwyaf Duw i'r ddynoliaeth, er

Cof plentyn – y cynnwrf ddaeth o weithio mas am y tro cyntaf fod Nadolig yn disgyn ar ddydd Mawrth ac felly bod Dad yn mynd i fod gartref am bum diwrnod o'r bron!

Phil Ellis



nad ydym yn gwybod i sicrwydd union ddyddiad ei eni.

Mae'r dyfyniadau sy'n cyd-fynd â'r pwt hwn yn dangos mor amrywiol yw'n profiadau ni o'r Nadolig. Pe gofynnem beth mae'r Nadolig yn ei olygu i'r rhan fwyaf o bobl, byddem yn sicr o gael amrywiaeth eang iawn o atebion – y gwych a'r gwachul. Siopa, siopa, siopa! Anrhegion diwerth! Traffig. Canhwyllau a thŷn agored. Bwyd a mwy o fwyd! Cardiau. Twrci hyd syrffed. Cyngerdd yr ysgol a phlant bach wedi eu gwisgo fel bugeiliaid ac angylion. Winter wonderland. Coeden ac addurniadau. Carolau plygain.

Ond os ydym yn dathlu'r Nadolig

sut y gallwn ni sicrhau bod ein Nadolig ni fel Cristnogion yn ddathliad hapusach na heip y cyfryngau? Sut y gallwn ni gael budd ysbrydol o'r Wyl? A sut y gallwn ni gadw cydbwysedd rhwng y joio a'r euogrwydd?

Anrhegion

Dyma elfen bwysig o fwynhad y Nadolig i lawer ohonom – y derbyn a'r rhoi. Ond sut y gallwn ni roi mewn ffordd ystyriol, gan gofio bod \$450 biliwn wedi ei wario yn America y llynedd adeg y Nadolig, ac yr amcangyfrifwyd y byddai \$10 biliwn yn datrys problemau diffyg dŵr glân drwy'r byd? A sut y gallwn ni beidio â theimlo'n euog wrth gael boddhad o weld sach lawn i ni ar fore 25 Rhagfyr?

- Atgoffa ein hunain nad yw pethau drud yn gyfystyr â hapusrwydd. Mae'n hawdd dweud hynny, ond weithiau rydym yn cael ein sugno i mewn i fateroliaeth ac yn ymddwyn yn wahanol.
- Defnyddio rhodd fel cyfle i fynegi gwerthfawrogiad o rywun rydym yn ei gymryd yn ganiataol efallai – hyd yn oed os na fyddwn yn derbyn anrheg yn ôl.
- Gwario llai a rhoi mwy. Fe allwn

Y pethau gorau am y Nadolig yw Cinio Dolig Mam (mmmm!), eira os oes modd yn y byd, carolau a band pres yn chwarae ar noson oer (ddim yn ffan o fandiau pres weddill y flwyddyn!). Fy atgof gorau yw ein Dolig cyntaf gyda Gwern, ac yntau wedi dod dros lawdriniaeth fawr ar y galon fis ynghynt.

Geinor Pennar

ni roi o'n hamser a'n hunain. Mae hynny'n briodol gan mai cofio yr ydym am Grist a roddodd ei hun i'r eithaf trosom ni. Mae'n ddiddorol sylwi o'r dyfyniadau bod ein hatgofion mwyaf gwerthfawr yn aml iawn yn ymwneud â phobl, nid pethau. Beth am addo treulio diwrnod gyda ffrind? Beth am fynd i'r ymdrech o wneud anrheg, faint bynnag o amser sydd gennych, a beth bynnag yw eich dawn?

- Rhoi'r hyn y gallwn ei fforddio, heb drio cystadlu â phobl sy'n treulio gweddill y flwyddyn yn ceisio clirio eu biliau cerdyn credyd.
- Rhoi rhodd elusennol – i elusen Gristnogol, i gyfrannu at hyfforddiant gweinidog, neu pa rodd well na phrynu

Fy hoff beth am y Nadolig yw hen hosan rygbi Dad wedi ei stwffio ac yn gorlifo, yn llawn losin, beiros, brwshys a phaent, mwy o losin, tegan gwirion, llyfr, mwy o losin, cylchgrawn, brwsh dannedd newydd (mae angen un ar ôl yr holl losin!), sanau a tangerine.

Bedwyr Lewis


Beibl i Gristion sydd heb fodd ariannol i brynu un. Mae paratoi bocs Nadolig i blentyn yn beth gwych i'w wneud gyda'n plant, ac efallai'n ffordd iddyn nhw ddatblygu'r arfer o roi.

- Beth am roi llyfr Cristnogol yn anrheg – gan weddio y bydd yn fendith fawr i'r darllenwr?
- Cydnabod yn weddigar bod pob rhodd dda yn y diwedd yn dod oddi wrth Dduw ei hun.

Teulu a ffrindiau

Dyma un arall o bleserau'r Nadolig. Mae'n debyg bod y mwyafrif ohonom yn ymweld â rhieni, plant neu dylwyth a hen ffrindiau dros y gwyliau. Ond, byddai llawer ohonom yn gorfod cyfaddef ein bod yn gallu ein cael ein hunain i stad o banig wrth feddwl am fod yn lletygar dros y Nadolig.

- Cofiwn i Crist ei hun fwynhau lletya gyda ffrindiau ym Methania, ac iddo geryddu Martha am drafferthu gormod wrth y bwyd.
- Ceisiwn wahodd pobl a fyddai wir yn gwerthfawrogi cael cwmni i fwyta pryd o fwyd.
- Nid oes angen gosod disgwyliadau afreal wrth agor ein cartref, gan gofio mai'r cwmni yw'r peth pwysig. *Gwell yw pryd o lysiau lle mae cariad, nag ych pasgedig a chasineb gydag ef.* Diarhebion 15:17.
- Nid oes rhaid meddwl bod



llun: www.freeimages.co.uk

rhaidd pensaernïo sgwrs â'n gwesteion. Byddant yn mwynhau cael bod yn rhan o'n haelwyd naturiol, a chwarae gemau neu wylïo ffilm gyda ni hyd yn oed.

- Mae'r Nadolig yn gyfle gwych i wahodd cymdogion i'n cartref. Mae llawer o Gristnogion yn cynnal bore coffi, ac yn ceisio defnyddio'r achlysur i gyflwyno'r Efengyl. Mae canu carolau yn ffordd o dystio, neu gallwch ddweud rhywbeth am eiriau carol. Mae cyhoeddi gras bwyd ynddo'i hun yn dystiolaeth. Neu os nad ydych yn teimlo y gallwch chi siarad, beth am ofyn i siaradwr o'r capel ddod i ddweud gair byr. Neu os nad ydych yn gyfforddus gyda hynny, mae rhinwedd mewn codi pontydd â chymdogion a gweddïo y bydd drws naturiol yn agor i rannu'r Efengyl o ganlyniad i hynny yn y dyfodol.

Yr ochr ysbrydol

Felly, does dim angen i ni deimlo'n euog wrth fwynhau rhoddion daearol Duw i ni. Ond, y pleser pennaf i'r Cristion yw gwerthfawrogi Duw a'i roddion mewn ffordd fwy real.

- Efallai bod hyn yn amlwg

– ond beth am fynd trwy ddarlleniadau'r Adfent yn ein defosiwn personol cyn y Nadolig. Dyna sy'n wych am air Duw: gydag eneiad yr Ysbryd Glân mae'n gallu dod mewn ffordd real a newydd i ni bob tro.

- Bu *Meseia* Handel yn fendith i lawer o Gristnogion ar hyd y blynyddoedd, ac yn cyflwyno geiriau'r ysgrythur mewn ffordd gofiadwy.
- Er mwyn helpu plant i gael y darlun Cristnogol yn glir, mae angen dyfeisgarwch i sicrhau bod elfennau Beiblaidd yn dod yn rhan o'n traddodiadau Nadoligaidd teuluol. Gall hynny olygu cydganu carolau a chael darlleniadau Beiblaidd

Arferai fy nhad-cu gerdded i mewn i'r stafell ffrynt ar noson San Steffan gyda'r Bran Tub. Byddai pawb wedi cyfrannu rhywbeth at y bocs – ac yn ein tro byddem yn agor un anrheg ar ôl y llall: crib, papur toiled Siôn Corn, oren, bocs o binnau papur, siocled... Ond rhan orau'r noson oedd y swopio a'r bargeinio tan fod pawb yn (weddol) hapus â'u pentwr o anrhegion, neu wedi blino dadlau ta beth.

Leri George

teuluol. Mae digon o lyfrau plant da ar hanes y Geni, a beth am wneud ychydig o ffws wrth ddod â'r rheini allan gyda'r goeden a'u gosod mewn lle amlwg dros yr Ŵyl?

- Beth am weddio yn benodol dros ffrind neu aelod o'r teulu sy ddim eto'n Gristion? Gallwn anelu at eu gwahodd i ddod i wasanaeth carolau.
- Gallwn brynu cardiau sy'n cynnwys adnod o'r Ysgrythur, neu gallwn feddwl am ffordd syml o ddweud rhywbeth sydd werth ei ddweud mewn cerdyn.
- Rydym ni'r Cymry yn freintiedig iawn yn ein hetifeddiaeth o garolau Plygain gwych. Beth am ddefnyddio

geiriau'r carolau i'n helpu yn ein myfyrdod? Mae llyfr Wyn James, *Carolau a'u Cefndir*, yn offeryn gwych i'n helpu i gael budd o garolau.

Rwyf mewn penbleth arall nawr! Ydw i'n rhy gynnar i ddymuno Nadolig Llawn i chi?

Mae'n draddodiad gennym bellach fynd i'r sinema a chael bwyd Tsieineaidd gyda theulu arall o'r capel (yr Evansiaid!) ar noswyl Nadolig. Rwy'n gwybod bod y Nadolig wedi cyrraedd pan fyddwn ni'n prynu'r tocynnau sinema.

Eleri Glanfield



... trwy'r Beibl **Y Cyfamod**

Noel Gibbard

Mae 'cyfamod' yn un o themâu canolog yr Ysgrhythur. Bwriadodd Duw greu perthynas rhyngddo ef ei hun a phobl bechadurus. Mynegodd ei fwriadau yn y cyfamod gras.

Ar sail gras, rhoddodd Duw addewidion arbennig; maddeuant, bod yn Dduw i'w bobl a hwythau i fod yn bobl iddo ef. Seliodd Duw y cyfamod trwy dywalltiad gwaed (Exodus 24:8). Dyma oedd yn glir yn yr Hen Destament. Pan oedd yr Arglwydd Iesu Grist yn dathlu'r Pasg (gŵyl y bara croyw) yn y Swper Olaf, roedd yn ymwybodol iawn o 'cyfamod' a 'gwaed', a chofiai am yr exodus o'r Aifft pryd y gwaredodd Duw ei bobl â braich gref (Exodus 12). Felly, roedd 'gwaredigaeth' hefyd ynghlwm wrth y 'cyfamod' a'r 'gwaed'.

Roedd dilyniant rhwng neges yr Iesu yn y Swper a neges yr Hen Destament. Ond roedd yr hyn a wnaeth yr Iesu yn y Swper yn newydd hefyd: 'Hwn yw y cyfamod newydd'. Roedd yn newydd mewn amgylchiadau. I'r Iddew roedd dydd Iau yr Ŵyl yn ddiwrnod prysur, difrifol a llawen. Yn y prynhawn lladdwyd yr oen a thywallt y gwaed. Yn yr hwyr, cyfarfyddai'r teuluoedd neu grwpiau o ffrindiau i ddathlu, a threfnwyd y cyfan yn ofalus iawn. Gwyddai pawb a oedd yn bresennol beth oedd y drefn; pryd oedd y weddi; y canu; y bwyta, a'r yfed o'r cwpan, y pedwar hyn yn eu tro. Rhan amlwg o'r dathlu oedd gwledda ar yr oen. Roedd hyn yn llawenydd ar ôl bwyta'r dail surion, a oedd yn eu hatgoffa o'r Aifft (Exodus 12). Dyna oedd y drefn, a chredai'r Iddew y byddai

hynny'n parhau i'r dyfodol.

Mor wahanol oedd y digwyddiad yn yr oruwchystafell. Nid oes sôn o gwbl am drefniadau manwl. Roedd y cwbl yn syml iawn. Dim ond Iesu a'i ddisgyblion oedd yn bresennol. Cymerodd Iesu y bara a'r cwpan, gweddïo a'u rhannu. Arwyddion oedd y rhain i bwysleisio lle marwolaeth yn nathliad y Pasg. Yr arferiad oedd cael oen i nodi hynny, ond nid oedd oen yn yr oruwchystafell. Ac, eto, roedd Oen yno, oherwydd roedd Iesu yno. Ef yw'r Oen sy'n tynnu ymaith bechod y byd. Rhaid oedd ei ladd a thywallt ei waed. Mae'r pwyslais ar 'fy': 'fy nghorff, a 'fy ngwaed'. Dioddefodd yr Iesu yn ei gorff a'i enaid, a'r dioddef hwnnw'n arwain at farwolaeth; tywallt gwaed yn golygu marw. Roedd y gwaed yn arwydd bod iachawdwriaeth wedi ei sicrhau, a hefyd yn selio addewidion cyfamod gras Duw.

Prif bwyslais yr Hen Destament oedd ar y cyfamod rhwng Duw ac Israel, ond ceir cyfeiriadau cyson at ehangu cylch y rhai a oedd i'w bendithio. Addawodd Duw i Abraham y byddai holl

deuluoedd y ddaear yn cael eu bendithio ynddo ef. Pan fu Iesu farw, sicrhaodd gymod rhwng Duw a dynion pechadurus, a rhwng yr Iddew a'r cenedl-ddyn hefyd (Effesiaid 2:14-18).

Yn yr Hen Destament, trefnwyd enwaediad i fod yn arwydd y cyfamod, ond yn y cyfamod newydd yr hyn sydd i'w gyfrif yw'r ailenedigaeth. Dyma sy'n nodweddu pobl Dduw, yr Israel newydd. Hwyl sydd wedi eu gwaredu o Aifft y byd ac, felly, nid cofio am y gorffennol yn unig a wnaeth y cwmni yn yr oruwchystafell, ond hefyd ddathlu rhywbeth oedd ar ddigwydd mewn hanes, sef gwaredigaeth, myned allan, exodus, yr Israel newydd (noder Luc 9:31, 'ymadawiad').

Un peth arall a oedd yn wir am gyfamod yr Hen Destament, oedd i Dduw roi'r gyfraith i'w bobl etholedig, i'w cadw o fewn y cyfamod. Ond soniodd Jeremeia am y 'cyfamod newydd', pryd y byddai Duw yn ysgrifennu'r gyfraith ar galon ei bobl (32:33). Trwy'r ailenedigaeth galluogir pechaduriaid i ufuddhau i gyfraith Duw, a'i charu. Yn yr

Hen Destament, y prif bwyslais
oedd ar Israel fel pobl, ond
bod gwir Israeliaid o fewn y
cwmni hwnnw. Yn y Testament
Newydd, unigolion sy'n cael eu
newid i ffurfio pobl Dduw; ei
eglwys ef.

Sefydlodd yr Iesu y Swper fel
un o ddwy ordinhad yr eglwys.
Gosododd ei farw yng nghanol
neges yr eglwys, a'i haddoliad.
Mae'r symbolau'n gymorth i
ni fyfyrion ar ei waith achubol;
cofio am yr hyn a gyflawnwyd
unwaith ac am byth, ond sydd
a'i arwyddocâd yn parhau
(Hebreaidd 9:24-8). Cofio hefyd,
fod y cyfamod yn gadarn ac na
ellir ei dorri. Gallwn syrthio o
fewn y cyfamod, ond nid allan
ohono.

Pwyllgor Cwmpawd

Leri George
Noel Gibbard
Amanda Griffiths
Christine James
Catrin Lewis
Gwynn Williams

*Er llithro i'r llaid, a llygru
defaid Duw,
Cyfamod sy i'w codi i fyny'n
fyw,
A golchi i gyd eu holl
aflendid hwy,
A'u dwyn o'r bedd heb ddim
amhuredd mwy*

Edward Jones

Holi Hwn a Hon

Luned

Beth yw dy swydd?

Cyfieithydd ydwi yn Llywodraeth y Cynulliad.

Sut dest ti'n Gristion?

Dydw i ddim yn gwybod pryd yn union y dechreuais weld bod Duw yn berthnasol i fi, ond erbyn imi gyrraedd pymtheg oed roeddwn wedi gofyn iddo faddau fy mhechod ac wedi dweud wrtho mai ei ffordd Ef roeddwn i eisïau ei dilyn. Roeddwn wedi dechrau cael blas ar ddarllen pennod o'r Beibl bob bore ar ôl mynd â'r ci am dro, ac yn teimlo bod Duw yn siarad â fi drwyddo. Roeddwn i'n argyhoeddedig mai neges y Beibl oedd y gwirionedd a bod galwad Iesu Grist ar fy mywyd yn un na allwn ei hanwybyddu.

Ble est ti dros yr haf?

Fe es i i ganol pobl yr acen hyfryd am bedwar diwrnod yn ystod yr haf. Mewn tref o'r enw Portstewart yng Ngogledd Iwerddon roedden ni, ardal newydd sbon i mi. Roedd ffrind i ni wedi'n gwahodd i gynhadledd Gristnogol New Horizons. Y thema oedd Adnabod Duw ac roedd pregethau Don Carson ar y pwnc yma yn procio'r meddwl a'r galon bob tro. Fe wnes i fwynhau'r canu

yn fawr hefyd – roedd rhyw hanner awr a mwy ohono ar ddechrau'r cyfarfodydd, ac roedd cael bod yn rhan o dorf o 6,000 yn addoli Duw yn brofiad eitha gwefreiddiol.

Un o uchafbwyntiau'r gwyliau oedd trip i Sarn y Cawr, sef casgliad naturiol o greigiau enfawr yn estyn mas i Fôr Iwerydd. Mae'n debyg mai lafa llosgfynydd yw e sydd wedi oeri, caledu a chracio. Mae'n olygfa reit od ond hynod hardd.

Ar ddiwrnod arall, fe aethon ni i Derry a chymryd y ffordd hir yno er mwyn gweld tipyn bach ar y wlad. Wedi cyrraedd, fe grwydron ni ardal Babyddol y Bogside a'i murluniau enfawr yn arwyddo hanes cythryblus protestiadau a thrais a fu. Llun gwraig ddi-lol yr olwg o'r enw Bernadette Devlin, Aelod Seneddol Gweriniaethol yn y 1970au; un arall o ddyn o'r enw Raymond McCartney, gwleidydd a wrthododd fwyta am gyfnod oherwydd ei ddaliadau; un arall eto o Operation Motorman, ymgyrch gan fyddin Prydain i ailfeddiannu ardaloedd a gâi eu rheoli gan yr IRA. Gwelsom hefyd y gofeb i'r 13 a fu farw ddydd Sul y Gwaed.

Roberts



Ond er cefndir trist y wlad, gwengar a chyfeillgar oedd y bobl ac rwy'n sicr eisiau mynd yn ôl yno.

Sut wyt ti'n hoffi ymlacio?

Y lle hyfrytaf yn y byd i ymlacio ynddo yw caffi *Shot in the Dark* ar City Rd. Yn enwedig y soffas lledr. Rwy'n meddwl bod coginio yn ffordd braf iawn i ymlacio hefyd. I gerddoriaeth yn ddelfrydol. Kristyn Getty ac Abba yw'r ffefrynnau ar hyn o bryd! Ac wrth gwrs, mae crwydro'r siopau yn rhan annatod o sgediwl ymlacio pob merch werth ei halen!

Pa sgil newydd hoffet ti ei dysgu?

Mae 'na lawer ohonynt -

marchogaeth, cwiltio, crosio, iaith arwyddion... Ac fe ddylwn i ddysgu sut i newid teiar ar fy nghar hefyd, siŵr o fod.

Beth yw dy hoff emyn?

Mae llwythi ohonyn nhw. Ond rwy'n arbennig o hoff o 'Mi dafla 'maich oddi ar fy ngwar'. Mae'r pennill cynta yn wych. Mae'n dweud bod aberth Iesu Grist yn golygu bod Duw'n gallu maddau i mi am bopeth wnes i o'i le erioed.

Rwy wrth fy modd hefyd â'r emyn Saesneg *There is a higher throne*, un sy'n debygol o roi croen gŵydd ichi wrth ei ganu. (Plis wnaiff rhywun ei gyfieithu?) Cân yw hi am y byd y mae'r Beibl yn ei alw'n 'nefoedd'.

Pwy yw dy arwyr?

Dydw i ddim yn meddwl bod gen i arwyr (ar wahan i Keith fy mecanig! a Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones am greu geiriadur mor wych, gan wneud bywyd gymaint yn haws i mi fel cyfieithydd!) Ond y tri pherson rwy'n fwyaf diolchgar iddynt yw Tom a Teifi Jones, dau frawd o Bentre-cwrt, Llandysul, am ddweud wrth Mam beth oedd neges y Beibl, a dyn o'r enw Haydn o Cross Hands am helpu cymaint ar Dad i ddeall y Beibl pan oedd e'n ifanc.

Ar Daith

Gerallt Siôn Elis

Ble rwyf ti wedi bod? A pham?

Ar ddechrau mis Medi, fe es i'n rhan o dîm o 12 o Gristnogion o Gaerdydd, allan i dref fechan o'r enw Gorom-Gorom, yn Burkina Faso, Gorllewin Affrica, er mwyn cynnal gwersyll pêl-droed i dros gant o blant ifanc y pentref. Yn naturiol, mae'r cwestiwn yn codi, 'Pam Burkina Faso?' Yn wir, pan gefais fy ngwahodd i fynd ar y daith, doeddwn i ddim hyd yn oed yn ymwybodol bod y fath le yn bod!

Mae'r ateb i'r cwestiwn yn dod ar ffurf dyn o'r enw Keith Smith, un o aelodau Eglwys Glenwood, Caerdydd. Ar ôl gorffen ei radd yn y brifddinas yn yr wythdegau, datblygodd faich dros lwyth o bobl o'r enw'r Fulani. Mae'r Fulani yn bobl falch iawn, â nodweddion corfforol unigryw, hanes cyfoethog a diddorol – ac yn ddilynwyr enbyd o Islam. Arweiniodd ei faich ef i bentref Gorom-Gorom yng ngogledd y wlad, a dyna ble mae wedi bod yn byw ers pedair blynedd ar hugain, ymhlith y Fulani, yn dysgu eu hiaith unigryw, yn

adeiladu perthynas â'r bobl ac yn cyhoeddi'r Efengyl. Caniataodd y berthynas sefydlog yma rhwng Keith a Fulani Gorom-Gorom i'r prosiect uchelgeisiol yma ddigwydd yn y pentref, a dyna ble des i i mewn i'r darlun.

Beth oedd 'diwrnod arferol' yn y gwersyll?

Byddai pob diwrnod yn dechrau am 4:30 y bore gyda sŵn yr *Adah* (galwad i weddi Islamaidd) yn seinio'n uchel drwy'r pentref. Erbyn 6.00, byddai'r mwyafrif o'r plant i fyny ac yn mynnu ein sylw! Cafodd y plant eu rhannu'n grwpiau yn ôl maint ac oedran, ac roeddwn i'n gyfrifol am hyfforddi 10 o fechgyn ifanc hoffus. Byddai rhan gynta'r bore yn cael ei threulio ar hyfforddi'r plant mewn sgiliau gwahanol fel pasio a saethu, a'r gweddill yn mynd ar chwarae gemau difyr gyda'r plant. Roeddent wrth eu bodd! Yna, am 11.00, roedd rhaid cael saib am rai oriau er mwyn cysgodi rhag yr haul crasboeth! Treuliwyd yr amser yma'n bwydo'r gwersyllwr â phrydau maethlon, iachus a digon o ddŵr glân.

Yna, yn y prynhawn, byddai gemau 'cystadleuol' yn cael eu cynnal rhwng y timau, lle byddai'r plant yn ceisio cymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd yn y bore i'w gêm. Trwy gydol yr wythnos, dosbarthwyd gwobrau i'r plant am lwyddo ar y cae pêl-droed, ac oddi arno, gyda'r gobaith o ddysgu'r plant am bwysigrwydd chwarae teg a parch. Byddai gweddill y diwrnod wedyn yn rhydd i gael cymdeithas â'r plant, magu perthynas a mwynhau eu cwmni. Erbyn diwedd yr wythnos, roeddwn wedi dod i adnabod llawer o'r plant yn dda iawn, ac roedd yn anodd ffarwelio a'u gadael. Bob nos, cynhelid gwasanaeth ac epilog, ble byddai

dros gant o blant Islamaidd yn clywed yr Efengyl am y tro cyntaf yn eu bywyd. Roedd yr epilogau a'r gwasanaethau hyn yn amserau gwerthfawr ac arbennig tu hwnt.

Gallaf hefyd ddweud yn bendant mai fi oedd yr hyfforddwr mwyaf poblogaidd o bell ffordd. Cefais fy mhenodi'n 'ddyn-losin' swyddogol y gwersyll ar ddechrau'r daith, a chefais y pleser o ddosbarthu miloedd – yn llythrennol! – o losin bach i'r plant trwy gydol ein hamser yn Gorom-Gorom.

Meddyliau am y gwersyll...

Yn gyntaf oll, wrth edrych nôl ar y gwersyll, ni allaf bwysleisio digon



pa mor llwyddiannus oedd y project. Cafodd pob plentyn amser bythgofiadwy yn chwarae pêldroed, gyda pheli-troed, esgidiau a goliau go iawn am y tro cyntaf, tra'n clywed am yr Efengyl. Yn ôl Keith, doedd prosiectau o'r math yma byth yn digwydd mewn ardaloedd fel Gorom-Gorom, a gwnaeth yn fawr wrth sôn am y ffaith y byddai'n hymweliad ni yn aros yng nghof y Fulani am weddill eu bywydau.

Pwysleisiodd Keith hefyd gymaint roedd y gwersyllwyr wedi eu syfrdanu gan ein hagwedd ni tuag atynt. Roeddent yn methu'n lân â deall pam yr oeddem yn rhoi cymaint o sylw iddynt ac yn treulio'n holl amser rhydd yn eu plith. Roedd hyn, yn ôl Keith, oherwydd mai plant oedd yn hawlio'r statws isaf yn y gymdeithas yn niwylliant y Fulani ac nad yw eu teuluoedd, hyd yn oed, yn dangos llawer o gariad nac yn rhoi llawer o sylw iddynt.

Roedd y tlodi hefyd yn llawer mwy eithafol nag yr oeddwn wedi ei ddychmygu. Yn achos y mwyafrif o'r plant, crys-T carpiog oedd yr unig eiddo oedd ganddynt, a chefais fy sobri nifer o weithiau wrth glywed rhai o'r bechgyn hyn yn sôn am ba

mor awyddus oeddent i fynd i'r ysgol a chael addysg, ond eu bod yn methu oherwydd nad oedd ganddynt ddigon o arian i dalu'r ffioedd.

Ar ganol yr holl dlodi ac anobaith yn Gorom-Gorom felly, ein gobaith yw y bydd y gwersyll wedi llwyddo i gefnogi Keith yn ei nod o adeiladu ysgol gynradd Gristnogol newydd yn y pentref, bod y plant wedi cael amser bythgofiadwy, ac y bydd pobl a chymuned Gorom-Gorom yn edrych yn ôl ar y gwersyll yn y dyfodol ac yn gofyn, 'Pam daeth y grŵp rhyfedd o bobl yna i'n pentref ni yng nghanol nunlle a dangos y fath gonsyrn a chariad dros ein plant?', ac y bydd hyn yn eu harwain at Iesu Grist.

Diolch...

Diolch am ddarllen am rai o'm profiadau a'm meddyliau am fy nhrif i Burkina Faso. Diolch yn fawr hefyd am eich gweddïau. Mae cymaint o bethau'n gallu mynd o'u lle allan yn niffeithwch Affrica, ond cawsom ein hamddiffyn rhag unrhyw niwed. A diolch o galon am eich rhoddion hynod o hael, a gyfrannodd gymaint at lwyddiant y gwersyll.

IFES yn Nice

Gwenllian Edwards

Fel y gŵyr y rhan fwyaf ohonoch, rwyf yma yn Nice yn ne-ddwyrain Ffrainc yn gweithio ar ran IFES gyda GBU y Côte d'Azur. Gadewch i mi esbonio yn gyntaf beth yn union yw'r GBU. Byrfoddiad ydyw am *Groupes Bibliques Universitaires* – hynny yw, math o Undeb Cristnogol. Nod y GBU (sydd mewn cydweithrediad ag IFES) yw rhannu neges y Beibl ac Efengyl Iesu Grist ymhlith myfyrwyr Ffrainc, iddynt ddod i berthynas â Duw, tyfu yn eu ffydd a bod yn wasanaethwyr effeithlon i eraill a'r Eglwys.

Rwyf wedi bod yn byw yma yn Ffrainc ers mis bellach. Cefais gyfle i ymweld ag amryw o wahanol bentrefi cyfagos, tref Monaco (sôn am gyfoeth – *yacht* ar ôl *yacht* a *lamborghini* ar ôl *lamborghini*!), amgueddfeydd megis un Chagall a hyd yn oed amgueddfa siocled a losin lle maent yn gorchuddio dail â siwgr. (Blasus iawn!) Ar yr olwg gyntaf hefyd, mae'r Ffrancwyr yn byw i fyny i rai o'r ystrydebau mwyaf cyffredin ohonynt fel cenedl. Er enghraifft, byddaf yn gweld rhywun yn ddyddiol yn cario


baguette yn ei law, ac yn gweiddi '*oh la la*' o unman. Mae un dyn yn chwarae'r acordion ger y farchnad bob bore, ac rwyf hyd yn oed wedi gweld rhywun yn gwsigo beret!

Dechreuodd ein gwaith gyda'r GBU yn dilyn y *rentrée* (dechrau'r tymor) ryw bythefnos yn ôl. Bûm yn dosbarthu pamffledi tu allan i gatiau campws y *Fac de Science* a *Fac des Lettres*. Cefais brofiad a hanner y tro cyntaf pan ddaeth un myfyriwr atom gan ddweud ei fod yn addoli Satan, ac yn mynegi ei anhapusrwydd ein bod yno. Dychwelodd ar



ôl ychydig i'n cynhyrfu gan ddefnyddio'r pamffledi i greu croes ar lawr â'r geiriau 'Hail Satan' arnynt. Gwnaeth hyd yn oed rwygo Testament Newydd yn ddarnau. Rhaid cyfaddef i hyn roi cryn dipyn o loes i mi a dwy o ferched eraill y tîm, ond cefais gysur yng ngeiriau doeth ffrind a wnaeth fy nwyn yn ôl at y groes gan bwysleisio fod Satan wedi ei faeddu, a bod Un llawer gwell gyda ni. Daeth geiriau Mathew 5:10-12 fel miwsig i'm clustiau. Cofiw'n mai Iesu yw ein dewrder pan fyddwn yn efengylu, a'n cysur pan fydd hi'n anodd. Mae hyn wedi roi gwir hwb i mi, i sylweddoli bod ar ein byd ni ei angen Ef! Mae ar Ffrainc ei angen Ef! Mae ar Gymru ei ANGEN Ef!

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o nosweithiau gwahanol er mwyn gwahodd unigolion i gwmni Cristnogion ac i glywed



yr Efengyl, nosweithiau megis noson *Danse et Dessert* (Dawns a phwddin) gyda dwy o ferched y tîm yn arwain twmpath yn Ffrangeg. Bu'n llwyddiant mawr –a llawer o hwyl. Da oedd gweld nifer o anghredinwyr yno. A chalondid mawr oedd gweld dau ohonynt yn dychwelyd ar gyfer noson arall – *Dîner et Wii* (Bwyd a Gemau Wii). Mae nosweithiau felly yn gyfle gwych i ddod i adnabod pobl eraill, i gynnig lletygarwch a chael hwyl yng nghwmni Cristnogion eraill.

Mae Duw yn sicr wedi bod yn dda i mi hyd yn hyn. Mae'n fy nghynnal pan fo pethau'n anodd, mae'n rhoi nerth i mi pan fydda i'n flinedig, mae'n rhoi llawenydd i mi yn ddyddiol. Mae byw yma yn Ffrainc yn fy nysgu bod Ffrainc yn wlad sydd ddim wir yn adnabod Duw. Na, nid yw'n dlawd o bell ffordd, ond mae cymaint o bobl ar goll yma, â'u gobaith ym mhethau bydol, yn dlawd yn ysbrydol. Rwy'n gweddio y bydd Duw yn fy ngalluogi i a gweddill y tîm ac aelodau'r GBU i fod yn hy a doeth wrth rannu'r Efengyl yn Ffrainc, fel bod y rheini sydd ddim eto yn adnabod Duw yn tyfu yn eu gwybodaeth ohono a fel bod Cristnogion yn cael eu trawsnewid gan ei ddatguddiad ohono Ef ei hun.

Ann

Noel Gibbard

Cefaist dy nefoedd yn y byd
a dy seiat yn y ffair,
gwrthrychau'r llawr oedd dy dduwiau,
dim ond geiriau oedd y Gair.

Ond dyfnder a alwai ar ddyfnder
a hiraethaist am gael byw,
pan ddaeth y gair o'r hen gapel,
agorwyd ffordd at dy Dduw.

Gollyngwyd y saeth yn gadarn
rhwng bysedd yr Ysbryd Glân,
clwyfwyd di'n dost, ond cefaist falm,
cefaist Feddyg, a chefaist gân.

Cefaist olwg ar ei Berson,
gwrthrych teilwng o dy fryd,
fe aroglai Rosyn Saron
a ffarwelio wnest â'r byd.

Mawr oedd dy ofid am Seion
yn methu yng ngwres y dydd,
ond claddu'r Atgyfodiad mawr
a gadwodd yn fyw dy ffydd.

Newyddion

Llawenhawn fod nifer o blant yr eglwys wedi gofyn am gael eu bedyddio ac fe gynhelir gwasanaeth bedydd ar ddechrau mis Rhagfyr - manylion pellach i'w cyhoeddi.

Bu sawl aelod o'r eglwys yn Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin ar ddechrau Hydref i lawenhau gyda'r eglwys ar achlysur agoriad swyddogol ei hadeilad newydd. Y Parch. Sulwyn Jones fu'n agor y Gair, a'i destun oedd breuddwyd Jacob a'r geiriau, 'Y mae'n sicr fod yr Arglwydd yn y lle hwn.'



Llongyfarchiadau mawr i Llion Marc Evans a Rhiân Barrett ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar. Dymunwn y gorau iddynt wrth baratoi i briodi.

Llongyfarchiadau mawr i Luned Evans ar ei chanlyniadau TGAU a phob hwyl yn ei chysiau Uwch Gyfrannol.

Mae nifer o'r eglwys wedi dechrau ar gysiau newydd ym mis Medi. Dymunwn y gorau i Emyr James wrth iddo ddechrau'r cwrs Binary yng ngoleg WEST (Bryntirion), i Llion sydd wedi cychwyn ar gwsr doethuriaeth ym mhrifysgolion Efrog a Manceinion, i Steffan Elis ar ddechrau cwrs ymarfer dysgu cynradd yma yng Nghaerdydd ac i Ifan Lewis ar ddechrau ei radd Celf, eto yma yn y Brifddinas.

Nid ydym wedi cynnwys adroddiadau ar waith yr haf (gwersylloedd, cynhadleddau ac ati) yn y rhifyn hwn o'r Cwmpawd eleni. Ond byddwn yn parhau i glywed adroddiadau achlysurol gan unigolion yn ystod y cyfarfodydd nos ar y Suliau.

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

Clwb Hapus Awr | nos Lun | 6.30 - 7.30pm

Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.30pm

Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am

Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am

Clwb y Bobl Ifainc | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys, ar wahan i Glwb Hapus Awr a gynhelir yn Ysgol Gynradd Eglwys Newydd.

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

Cynhelir oedfa nos ychwanegol ar yr ail Sul bob mis yn yr Eglwys Newydd, am 6.30 yn Eglwys Tabernacl

Trefniadau Nadolig

Nos Sul – Rhagfyr 6 – Oedfa carolau

Nos Sul – Rhagfyr 13 – Oedfa carolau yn yr eglwys newydd (amser i'w benderfynu)

Dydd Sadwrn – Rhagfyr 19 - Parti Nadolig

Bore Sul - Rhagfyr 20 - Gwasaneth Carolau y teulu

Bore Gwener - Rhagfyr 25 - Gwasanaeth Dydd Nadolig

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org